# HUW BODWRDA neu Huw ap Richard ap Siôn ap Madog o Fodwrda, Sir Gaernarfon (fl. 1566), boneddwr, bardd, a noddwr beirdd

**Enw:** Huw Bodwrda
**Plentyn:** John Wyn ap Hugh
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** boneddwr, bardd, a noddwr beirdd
**Cartref:** Fodwrda
**Maes gweithgaredd:** Dyngarwch; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Efe oedd Huw Bodwrda y 1af. Y mae ar gael ddau gywydd o'i waith yn ymgellwair ag Ieuan Dylyniwr; gwnaeth hefyd englyn yn annog y beirdd a ddeuai i'w dy i ganu i'r 'Worthyes' ar y pared yn y T  Canol ym Modwrdda; y mae'n amlwg hefyd ei fod yn cadw bardd a thelynor teulu. Canodd Wiliam Ll n farwnad ar ei ôl, a gellir casglu oddi wrthi iddo gael ei gladdu yn Ynys Enlli. Mab iddo oedd John Wyn ap Hugh a gyhuddwyd gan un Morgan ab Ieuan o fod yn fôr-leidr ar Enlli c. 1567.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Yr Herald Cymraeg a'r Genedl*, 29 Awst, 5 a 12 Medi 1938

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Cynfeirdd Llyn, 1500-1800* (Pwllheli 1905)

*Gweithredoedd Cefnamlwch yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor* (U.C.N.W.)

*Llawysgrif D. D. Williams*

*A Catalogue of Star Chamber Proceedings Relating to Wales* (Cardiff 1929), Caerns., 5 Eliz. 18/1


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733223


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu